

Cynllun Trydan Dŵr Dolwyddelan

YNNI ADNEWYDDADWY YN NOLWYDDELAN A THRYDAN RHATACH

Yn dilyn cyfarfod cymunedol llwyddiannus ac addysgiadol yn trafod **Cynllun Trydan Dŵr Dolwyddelan**, teimlem ei bod yn ddefnyddiol i roi gwybodaeth ffeithiol i chwi ar sut mae hyn wedi datblygu.

Bellach mae gennym atebion arloesol fydd yn darparu holl anghenion pŵer trydanol ar gyfer Dolwyddelan yn uniongyrchol drwy ffynonellau adnewyddadwy e.e. yr afon gan ddefnyddio'r cynllun trydan dŵr ac ynni'r haul gan ddefnyddio technoleg 'solar PV'.

Yn hytrach na bwydo'r trydan hwn yn uniongyrchol i'r Grid Cenedlaethol, oedd yn mynd yn fwy fwy costus yn ddyddiol, 'rydym yn cynllunio i ddefnyddio technoleg batri dyfeisgar i storio a throsglwyddo'r pŵer yn uniongyrchol i'ch cartrefi.

Beth mae hyn yn ei olygu i Ddolwyddelan?

Y fantais gyntaf fydd trydan rhatach, bydd yn bŵer mwy dibynadwy gan ei fod yn cael ei gynhyrchu yn lleol a dim yn gorfod teithio-hyd y dyffryn i'n cartrefi, bydd yn dod o ffynhonnell adnewyddadwy felly yn taelo'r mater o lygredd carbon a bydd manteision eraill fel cyfleon gwaith, addysgu ein plant a ninnau ac yn rhoi Dolwyddelan ar y map go iawn fel cymuned **arloesol a blaengar**.

Mae llawer o waith i'w wneud i gwblhau'r prosiect a chynllunio'r manylion ond bwriadwn gysylltu â chwi'n rheolaidd trwy gylchlythyr a digwyddiadau cymunedol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yna gallwch eu cyfeirio drwy'r Cyngor Cymuned fydd yn darparu'r ymatebion.

Clerc y Cyngor Cymuned

Cyfeiriad: Alltrem, 2 Pentrefelin, Dolwyddelan, Conwy LL25 0DZ

Ffôn: 01690 750331

Ebo: info@dolwyddelancc.org.uk

Web: www.dolwyddelancc.org.uk

Croesewir eich cwestiynau, gwyliwch am ragor o wybodaeth ar yr hysbysfyrddau cymunedol.